

Y Perchennog/Preswlydd

Gofynnwch am/Please Ask For: Toby Olden

Fy Nghyf/My Ref:
IF 206

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/Date:
6ed Hydref 2022

Annwyl Berchennog/Breswlydd,

Heol Hensol, Meisgyn – Cyfyngiad Pwysau Arfaethedig o 7.5 tunnell ar Bont y Rheilffordd.

Yn dilyn pryderon diogelwch ffyrdd nad oes modd i rai cerbydau masnachol groesi'r bont gul ar Heol Hensol, Meisgyn, a bod arwyddion rhybudd cynghorol presennol yn aml yn cael eu hanwybyddu, mae'r Cyngor yn cynnig cyflwyno cyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell. Byddai hyn yn ei gwneud yn drosedd i gerbydau dros 7.5 tunnell (ac eithrio bysus lleol) ddefnyddio'r bont.

Mae manylion y cynigion, gan gynnwys arwyddion wrth y bont ei hun ac arwyddion rhybudd ymlaen llaw ar gyfer y cyfyngiad pwysau o 7.5 tunnell i'w gweld ar y lluniad atodedig **IF206/TM21/078/GA**, ac ar y we: www.rctcbc.gov.uk/traffig.

Y cam nesaf yn y broses fydd rhoi cyfnod o hysbysiad cyhoeddus o'r cynigion, lle byddwn ni'n hysbysebu manylion y cynigion. Dyma gyfle i'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Pe hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun, anfonwch nhw ar bapur erbyn **27ain Hydref 2022**, at sylw'r Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu mewn neges e-bost i GwasanaethauTraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost ataf i'r cyfeiriad e-bost uchod.

Yn gywir,

Toby Olden
Technegydd Traffig, Materion Rheoli Traffig
Traffic Technician, Traffic Management

Gwasanaethau Rheng-flaen

Frontline Services

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Roger Waters BSc CEng MICE

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



The Owner / Occupier

Gofynnwch Am/ Please Ask For: Toby Olden

Fy Nghyf/ My Ref:
IF 206

Eich Cyf/ Your Ref:

Dyddiad/ Date:
6th October 2022

Dear Owner/Occupier

Hensol Road, Miskin - Proposed 7.5t Weight Limit Restriction on Railway Bridge.

Following road safety concerns that certain commercial vehicles cannot negotiate the narrow bridge on Hensol Road, Miskin - and that existing advisory warning signs are often ignored. The Council is proposing to introduce a 7.5t weight limit restriction that will make it an offence for vehicles with a weight limit over 7.5t (except for local buses) from using the bridge.

Details of the proposals, including signing at the bridge itself and also advance warning signing for the 7.5t weight limit restriction are shown on the attached drawing **IF206/TM21/078/GA**, which may also be viewed at www.rctcbc.gov.uk/traffic.

The next stage in the process will be to give a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment on the proposals, you should do so in writing by **27th October 2022**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at trafficservices@rctcbc.gov.uk

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me via the above email address.

Yours faithfully,

Toby Olden
Technegydd Traffig, Materion Rheoli Traffig
Traffic Technician, Traffic Management

Gwasanaethau Rheng-flaen
Frontline Services

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Roger Waters BSc CEng MICE

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

